| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Cynorthwyydd Addysgu | **Gradd Blaenau Gwent:** | Graddfa 4 (Lefel 2) |
| **Ysgol:** | Ysgol Arbennig | **Rhif y Swydd:** | |
| **Rheolwr Llinell:** | Uwch Athro, Athro Dosbarth, Uwch Gynorthwyydd Addysgu | | |
| **Cyfrifoldeb Goruchwylio:** | Dim, ar wahân i gynorthwyo i ymgyfarwyddo â gwaith aelodau newydd o staff. | | |
| **Oriau:** | 32.5 awr | | |

## Prif ddiben y swydd

- Gweithio dan oruchwyliaeth, cyfarwyddyd ac arweiniad penodol yr athro dosbarth i gefnogi'r gweithgareddau addysgu a dysgu yn y dosbarth gyda disgyblion ag anghenion cymhleth ac anawsterau dysgu dwys.
- Darparu cymorth cyffredinol i'r athro dosbarth yn nhrefniadaeth a rheolaeth y disgyblion a'r ystafell ddosbarth gan sicrhau cymorth priodol i bob disgybl yn dibynnu ar eu hanghenion cynlluniedig unigol.
- Cynorthwyo'r athro i greu a chynnal amgylchedd dysgu pwrpasol, trefnus a chefnogol i bob disgybl gan helpu'n arbennig i oresgyn rhwystrau lluosog i ddysgu gan gynnwys anawsterau corfforol, emosiynol ac ymddygiad.
- Hyrwyddo cynhwysiant pob disgybl, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal i gyfleoedd i ddysgu a datblygu.
- Bod yn gyfrifol am hyrwyddo a diogelu lles plant a phobl ifanc o fewn yr ysgol.

## Prif gyfrifoldebau a thasgau

### Cymorth ar gyfer disgyblion

1. O dan oruchwyliaeth benodol yr athro dosbarth, gweithio gydag unigolion a grwpiau o ddisgyblion i gyflwyno rhaglenni dysgu gan ystyried gofynion ychwanegol Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).
2. Annog disgyblion i ryngweithio ag eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau a arweinir gan yr athro, a all gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gyda'r disgyblion.
3. Meddu ar wybodaeth am anghenion arbennig cymhleth a gallu defnyddio rhaglenni priodol fel Team Teach.
4. Cydnabod y gall fod gan ddisgyblion anawsterau cyfathrebu a gallu defnyddio technegau cyfathrebu amgen os oes angen.
5. Gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill a dilyn eu rhaglen gynlluniedig ar gyfer disgyblion unigol h.y. iechyd galwedigaethol, therapyddion lleferydd a ffisiotherapyddion.
6. Cynorthwyo gyda gofal bugeiliol cyffredinol y disgyblion, gan gynnwys helpu disgyblion sy'n sâl, mewn trallod neu ansicr ac sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.
7. Cynorthwyo disgyblion ag anghenion gofal personol a all gynnwys materion cymdeithasol, iechyd, hylendid a lles. Gallai hyn gynnwys gweithdrefnau codi a chario lleol y cytunwyd arnynt a dilyn rhaglen ar gyfer meddyginiaeth ar bresgripsiwn o dan ganllawiau y cytunwyd arnynt.

## Cymorth ar gyfer yr athro

8. Paratoi a chynnal adnoddau a chyfarpar dosbarth sylfaenol yn unol â chyfarwyddyd yr athro dosbarth a chynorthwyo'r disgyblion wrth eu defnyddio.

9. Paratoi'r dosbarth yn ôl y cyfarwyddyd ar gyfer gwersi, gan sicrhau bod adnoddau ar gael a'u bod yn cael eu clirio ar ddiwedd y wers fel y bo'n briodol.

10. Rhoi adborth rheolaidd i athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill ar gyflawniad a chynnydd disgyblion.

11. Rhoi adborth i ddisgyblion mewn perthynas â chynnydd a chyflawniad o dan arweiniad yr athro. Gall hyn gynnwys adborth ar gynnydd disgyblion wrth gwrdd â thargedau Cynllun Addysg Unigol (CAU).

12. Gweinyddu a marcio profion arferol o dan arweiniad yr athro dosbarth ac yn unol â pholisi marcio'r ysgol.

13. Bod yn ymwybodol o gynllunio gwaith a gweithgareddau.

14. Darparu cymorth clerigol cyffredinol i'r athro, e.e. llungopïo, lamineiddio, ffeilio, ac ati yn ôl yr angen.

## Cymorth ar gyfer yr ysgol

15. Bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a diogeledd, AAA/cynhwysiant a diogelu data, a chydymffurfio â nhw, gan roi gwybod am bob pryder i'r person a enwir priodol.

16. Cynorthwyo gyda goruchwylio disgyblion y tu allan i amser gwersi ond yn ystod y diwrnod ysgol, o fewn oriau contract yn ôl yr angen er mwyn eu diogelwch.

17. Gweithio mewn amgylchedd lle mae gofynion amrywiol gan y disgyblion a lle gall fod angen ymyrraeth gorfforol i sicrhau diogelwch y plentyn neu eraill.

18. Cynllunio, paratoi a mynd gyda staff addysgu a disgyblion ar ymweliadau, teithiau a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol o fewn oriau contract yn ôl yr angen.

19. Cynorthwyo gyda gofal bugeiliol cyffredinol disgyblion, gan gynnwys helpu disgyblion sy'n sâl, yn ofidus neu'n ansefydlog a'r rhai sy'n profi anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

20. Mynychu cyfarfodydd perthnasol a chymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol yn ôl yr angen.

21. Mynychu cyfarfodydd perthnasol a chymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol a datblygu perfformiad yn ôl yr angen.

22. Cydymffurfio â pholisi iechyd a diogelwch yr ysgol gan gynnwys asesu risg a systemau diogelwch.

23. Cadw at bolisi'r ysgol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Cymorth ar gyfer y cwrciwlwm

24. Cynorthwyo gyda datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh sylfaenol a chefnogi eu defnydd mewn gweithgareddau dysgu.

25. Ymgymryd â dyletswyddau gweddol debyg sy'n gymesur â lefel y swydd fel sy'n ofynnol gan y pennaeth.